Ageing Well Card Scheme

What is it?

The Ageing Well Card scheme is a national initiative from Ageing Well in Wales. The scheme supports older people to maintain their independence and to continue to do the things that matter to them. It has been designed as part of our work to make Wales a nation of age-friendly communities.

Ageing Well Cards are a series of simple messages that can be used to let people know that you might need a little help or support. The cards are provided in an easily identifiable Ageing Well in Wales travelcard wallet.

The scheme is based on the Better Journey and Safe Journey card schemes developed by First Group. We would like to thank First for all their assistance and support, as well as the various forums and groups around Wales who worked with us to select the messages used on the cards.

The scheme is also designed to complement existing regional schemes such as the Pembrokeshire Passport and Orange Wallet.

We have tried to select messages which will be useful in a variety of situations. A blank card has also been provided for you to write your own message in, and you can download additional cards at <link>.

If you would like to receive a copy of the Ageing Well Cards and travelcard wallet, please contact us at **ageingwell@olderpeoplewales.com** or on **02920 445 030**.

Where can I use it?

Ageing Well cards are designed to be used in a variety of situations and places. They can be particularly useful in shops, cafés, restaurants, banks, pharmacies and on public transport, where you can use them to easily and discretely let people know that you would like a little additional help or support.

Ageing Well in Wales is working with partners across Wales to have the scheme widely recognised. For a list of organisations which have agreed to participate in the scheme, visit <link>.

How can my organisation or business get involved?

Letting your staff know about the Ageing Well Card scheme and making sure that they will recognise and be responsive to them is a great way to make your organisation or business more age-friendly. Agreeing to recognise the cards is a great way to let your customers know that you want to make your business or service accessible and welcoming for people of all ages. Make sure your staff know what the Ageing Well Cards and travelcard wallet look like, and ask them to think about how they can respond to the messages on the card. Recognising the scheme and being responsive to customers using it doesn’t require any specialist training,

it’s about being aware that some people might need a little extra help, and supporting them in simple ways.

If your business or organisation would like to be part of the Ageing Well Card scheme, please contact us at **ageingwell@olderpeoplewales.com** or on **02920 445 030**.

For more information and guidance on making your business more age-friendly, download a copy of our free guide.

How else can I support the scheme?

Spread the word about the scheme to friends, family, colleagues and neighbours. Let people know to contact us if they would like to have a set of cards and travelcard wallet sent to them.

Talk to local businesses about the scheme and ask if them would recognise the cards. If they’d like more information, ask them to get in touch with us at ageingwell@olderpeoplewales.com or on 02920 445 030.

Cynllun Cerdyn Heneiddio'n Dda

Beth ydyw?

Mae'r Cynllun Cerdyn Heneiddio'n Dda yn fenter genedlaethol gan Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cefnogi pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth a pharhau i wneud y pethau sydd o bwys iddyn nhw. Cafodd ei gynllunio fel rhan o'n gwaith i wneud Cymru yn genedl o gymunedau sy'n gyfeillgar i oed.

Mae Cardiau Heneiddio'n Dda yn gyfres o negeseuon syml y gellir eu defnyddio i roi gwybod i bobl y gallech chi fod angen ychydig o help neu gefnogaeth. Mae'r cardiau yn cael eu darparu mewn waled cerdyn teithio Heneiddio'n Dda yng Nghymru a ellir ei adnabod yn hawdd.

Mae'r cynllun yn seiliedig ar y cynlluniau cardiau Better Journey a Safe Journey a ddatblygwyd gan First Group. Hoffem ddiolch i First am eu holl gymorth a'u cefnogaeth, yn ogystal â'r fforymau a'r grwpiau amrywiol o gwmpas Cymru a weithiodd gyda ni i ddewis y negeseuon a ddefnyddiwyd ar y cardiau.

Yn ogystal, mae'r cynllun wedi cael ei gynllunio i ategu cynlluniau rhanbarthol sy'n bodoli fel Pasbort Sir Benfro a'r Waled Oren.

Rydym wedi ceisio dewis negeseuon a fydd yn ddefnyddiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae cerdyn gwag wedi cael ei ddarparu yn ogystal er mwyn i chi ysgrifennu eich neges eich hun arno, a gallwch chi lawrlwytho cardiau ychwanegol yn <dolen>.

Os hoffech chi dderbyn copi o'r Cardiau Heneiddio'n Dda a'r waled cerdyn teithio, cysylltwch â ni yn **heneiddiondda@olderpeoplewales.com** neu ffoniwch **02920 445 030**.

Lle gallaf i ei ddefnyddio?

Mae cardiau Heneiddio'n Dda wedi cael eu cynllunio i'w defnyddio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a lleoedd. Gallan nhw fod yn arbennig o ddefnyddiol mewn siopau, caffis, bwytai, banciau, fferyllfeydd ac ar gludiant cyhoeddus, lle gallwch chi eu defnyddio nhw'n hawdd ac yn gyfrinachgar er mwyn rhoi gwybod i bobl y byddech chi'n hoffi ychydig o help neu gymorth ychwanegol.

Mae Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn gweithio gyda phartneriaid drwy Gymru i gael cydnabyddiaeth eang i'r cynllun. Os ydych chi'n dymuno cael rhestr o sefydliadau sydd wedi cytuno i gymryd rhan yn y cynllun, ewch i <dolen>.

Sut all fy sefydliad neu fy musnes i gymryd rhan?

Mae rhoi gwybod i'ch staff ynglŷn â'r cynllun cerdyn Heneiddio'n Dda a sicrhau y byddan nhw'n adnabod ac yn ymateb iddo, yn ffordd wych o wneud eich sefydliad neu'ch busnes yn fwy cyfeillgar i oed. Mae cytuno i gydnabod y cardiau yn ffordd wych i roi gwybod i'ch cwsmeriaid eich bod chi am wneud eich busnes neu'ch gwasanaeth yn hygyrch ac yn groesawus i bobl o bob oed. Sicrhewch fod eich staff yn gwybod sut y mae'r Cardiau Heneiddio'n Dda a'r waled cerdyn teithio yn edrych, a gofynnwch iddyn nhw feddwl ynglŷn â sut y gallan nhw ymateb i'r negeseuon ar y cerdyn. Nid oes angen unrhyw hyfforddiant arbenigol i adnabod y cynllun ac ymateb i gwsmeriaid sy'n ei ddefnyddio; mae hyn ynglŷn â bod yn ymwybodol bod rhai pobl efallai angen ychydig o help a chefnogaeth ychwanegol mewn ffyrdd syml.

Os byddai eich busnes neu'ch sefydliad yn hoffi bod yn rhan o'r cynllun Cerdyn Heneiddio'n Dda, cysylltwch â ni yn **heneiddiondda@olderpeoplewales.com** neu ffoniwch **02920 445 030**.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth a chanllawiau ynglŷn â gwneud eich busnes yn fwy cyfeillgar i oed, llawrlwythwch gopi o'n canllawiau yn rhad ac am ddim.

Pa ffordd arall allaf i gefnogi'r cynllun?

Siaradwch am y cynllun gyda ffrindiau, teulu, cydweithwyr a chymdogion. Rhowch wybod i bobl gysylltu â ni os hoffen nhw dderbyn cyfres o gardiau a waled cerdyn teithio.

Siaradwch â busnesau lleol ynglŷn â'r cynllun a gofynnwch iddyn nhw a hoffen nhw adnabod y cardiau. Os fydden nhw'n dymuno derbyn mwy o wybodaeth, gofynnwch iddyn nhw gysylltu â ni yn heneiddiondda@olderpeoplewales.com neu ffoniwch 02920 445 030.